

Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011-21

Adroddiad Blynyddol 2012/13

Vale of Glamorgan
Local Service Board
Bwrdd Gwasanaethau Lleol
Bro Morgannwg



Cynllunio a sweithio Gyda'n Gilydd

Aelodau Partneriaeth Bro Morgannwg



Coleg Caerdydd a'r Fro



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Cyfoeth Naturiol Cymru



RWE nPower



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Heddlu De Cymru



Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro



Cyngor Bro Morgannwg



Prawf Cymru



Gwasanaethau Ambiwylans Cymru



Llywodraeth Cymru

Cynnwys:

Cyflwyniad.....	4
Bywyd yn y Fro: Cipolwg.....	9
Sut ydym yn gwneud?.....	12
Canlyniad Blaenoriaeth 1 (Ymgysylltu).....	15
Canlyniad Blaenoriaeth 2 (Gwasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Cwsmer).....	17
Canlyniad Blaenoriaeth 3 (Cynladwyedd).....	19
Canlyniad Blaenoriaeth 4 (Pobl Hŷn).....	21
Canlyniad Blaenoriaeth 5 (Plant a Phobl Ifanc).....	23
Canlyniad Blaenoriaeth 6 (Dysgu a Sgiliau).....	25
Canlyniad Blaenoriaeth 7 (Adfywio).....	27
Canlyniad Blaenoriaeth 8 (Adfywio).....	29
Canlyniad Blaenoriaeth 9 (Diogelwch Cymunedol).....	31
Canlyniad Blaenoriaeth 10 (Iechyd a Lles)	34
Datblygu Data	36
Byrfoddau.....	37

Cyflwyniad

Yn 2010, penderfynodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) y Fro baratoi un ddogfen gyffredinol a fyddai'n dwyn ynghyd holl gynlluniau a strategaethau'r gwahanol bartneriaethau er mwyn creu un Cynllun Integredig Sengl, sef y Strategaeth Gymunedol. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn ystyried sut y bydd y Fro yn edrych yn dyfodol a sut y bydd modd cyflawni'r weledigaeth honno ar gyfer y Fro. Mae'n ceisio sicrhau bod nodau a thargedau'r holl sefydliadau sy'n weithredol yn y Fro yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd cyson i breswylwyr, ymwelwyr a busnesau. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynrychioli dull gweithredu cydgysylltiedig tuag at wella ansawdd bywyd yn y Fro. Mae'r strategaeth yn delio gyda'r cyfnod 2011-21 ac mae'n cael ei chynorthwyo gan Gynllun Cyflawni tair blynedd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ail flwyddyn y Cynllun Cyflawni, wrth i ni gyflawni ein canlyniadau i wella'r gwasanaethau yn y Fro ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. Mae modd gweld y deg canlyniad blaenoriaeth yn y Strategaeth Gymunedol ar glawr cefn y ddogfen hon.

Mae cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar ddatblygu a chynnal diwylliant cadarn o weithio mewn partneriaeth, ac mae ystod eang y sefydliadau y maent wedi ymrwymo i'r canlyniadau blaenoriaeth a rennir ac y maent wedi ymrwymo i weithredu'r strategaeth, yn dystiolaeth o hyn. Amlygir gwerth gweithio mewn partneriaeth gan Fil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru, a fydd yn cynnig sail statudol unigol ar gyfer cynllunio integredig. Yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth hon, mae'r angen i bartneriaid gydweithio'n llawn wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn fwy eglur nag erioed. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) Bro Morgannwg yn cyflawni rôl y bartneriaeth gyffredinol sy'n gyfrifol am gynllunio cymunedol ac mae aelodaeth BGLI yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o'r sefydliadau a restrir ar du mewn clawr y ddogfen hon. Mae BGLI yn dwyn ynghyd arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat er mwyn cynllunio, gweithio, darparu a gwella gwasanaethau, er mwyn cyflawni canlyniadau'r Strategaeth Gymunedol.

Mae gwaith a gyflawnir trwy BGLI yn adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd gan Grŵp Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus (GASC) Llywodraeth Cymru. Trafodir gwaith GASC yn rheolaidd gan BGLI ac mae'n cael ei gynnwys mewn rhaglenni gwaith partneriaeth, gan sicrhau bod BGLI yn ystyried blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn defnyddio arfer gorau ac arloesedd a ddatblygwyd mewn mannau eraill. Darparir manylion y prosiectau sy'n cael eu cynnal ar lefel ranbarthol trwy gydol yr adroddiad ac maent yn adlewyrchu sut y mae partneriaid yn y Fro yn gweithio gyda chydweithwyr mewn ardaloedd cyfagos.

Mae'r Strategaeth Gymunedol yn nodi manylion deg canlyniad blaenoriaeth y mae BGLI wedi eu nodi ar gyfer y Fro, gan gynnwys themâu ymgysylltu cymunedol a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, cynladwyedd, plant a phobl ifanc, iechyd a lles a gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn. Datblygwyd nifer o bartneriaethau er mwyn cyflawni'r canlyniadau blaenoriaeth ac mae pob

partneriaeth yn arwain y gwaith o gyflawni un o'r canlyniadau neu fwy. Fodd bynnag, mae'n werth pwysleisio, o fewn diwylliant cydweithio a natur trawsbynciol y materion y mae'r canlyniadau blaenoriaeth yn rhoi sylw iddynt, bod partneriaethau yn aml yn cyflawni gwaith sy'n cynorthwyo i gyflawni unrhyw nifer o'r canlyniadau blaenoriaeth a nodwyd.

Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ceisio cyflawni rôl y bartneriaeth arweiniol dros blant a phobl ifanc, gan gyflawni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn trwy gyfrwng 7 Nod Craidd Llywodraeth Cymru. Bydd y bartneriaeth yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y Fro yn wybodus ac yn cael eu cynorthwyo i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau o ansawdd, y byddant yn eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn eu cymunedau lleol a thu hwnt.

Partneriaeth Dysgu a Sgiliau

Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd addysg a hyfforddiant ac mae'n cael ei chynorthwyo gan nifer o is-grwpiau aml-asiantaeth. Cyflawnir gwaith er mwyn gostwng nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) ac i waredu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio ar gyflogaeth, dysgu a gwaith. Cyflawnir hyn ar y cyd ag ysgolion ac addysg bellach.

Partneriaeth Adfywio

Diben y Bartneriaeth Adfywio yw dwyn ynghyd partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddiogelu a gwella lles cymunedau a'r amgylchedd, gan fabwysiadu dull gweithredu cytbwys a chynaliadwy trwy gyfrwng gweithredoedd cymdeithasol, corfforol, economaidd ac amgylcheddol. Nod y Bartneriaeth yw hyrwyddo egwyddorion cynladwyedd a chydaddoldeb trwy gyfrwng rhaglenni, strategaethau a mentrau adfywio sy'n bodoli eisoes ac y maent yn gysylltiedig gyda'r amgylchedd adeiledig a naturiol.

Partneriaeth Bro Ddiogelach

Mae Partneriaeth Bro Ddiogelach yn gyfrifol am sicrhau bod lefelau trosedd ac anrhefn yn isel a bod preswylwyr ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ym Mro Morgannwg. Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwymo i'r cam o greu amgylchedd mwy diogel, lle y bydd modd i bobl fyw, gweithio ac ymweld ag ef, a fydd yn rhydd rhag troseddau ac anrhefn a'r ofn o droseddau. Mae aelodau'r Bartneriaeth yn gynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol, busnesau a grwpiau cymunedol.

Bwrdd Iechyd y Cyhoedd a Lles

Mae Bwrdd Iechyd y Cyhoedd a Lles yn galluogi sefydliadau partneriaeth lleol i gydweithio er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a rhoi sylw i anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig mewn perthynas â'r meysydd allweddol a nodwyd sef bwyd a gweithgarwch corfforol, ysmegu, alcohol, imiwneiddio a dementia.

Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro

Mae'r Bwrdd Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn nodi grwpiau penodol o fewn ein cymuned y mae modd i ni wella'r gwasanaethau ar eu cyfer trwy gydweithio e.e. yr oedranus eiddil, plant y mae ganddynt anghenion cymhleth, ac oedolion a phlant y mae ganddynt anabledd dysgu. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, CGGF, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd.

Wrth i'r partneriaethau uchod gydweithio er mwyn cyflawni ein canlyniadau blaenoriaeth, mae'n gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y Fro fel a ganlyn:

- man sy'n ddiogel, yn lân ac yn ddeniadol, lle y mae modd i unigolion a chymunedau fanteisio ar gyfleoedd cynaliadwy i wella'u hiechyd, eu dysgu a'u sgiliau, eu ffyniant a'u lles, a man
- lle y gwelir ymdeimlad cadarn o gymuned, lle y mae unigolion a grwpiau lleol yn meddu ar y gallu a'r cymhelliant i wneud cyfraniad effeithiol i gynnaladwyedd yr ardal yn y dyfodol.

Er mwyn pennu canlyniadau blaenoriaeth y Strategaeth Gymunedol, cynhaliwyd Asesiad Anghenion Unedig, a chaiff y gwaith parhaus o ddadansoddi a datblygu data ei gydnabod gan BGLI fel mecanwaith allweddol er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau cywir yn cael eu nodi a'u cyflawni ar gyfer y Fro. Felly, rydym wedi sefydlu Grŵp Deallusrwydd Busnes er mwyn cadarnhau ethos o gydweithio rhwng partneriaid unwaith eto, o ran argaeledd a thryloywder data. Mae'r Grŵp Deallusrwydd Busnes wedi gweithio i gynorthwyo cyfleoedd rhwydweithio rhwng dadansoddwyr, ymchwilyr a phersonél ymgynghori BGLI er mwyn datblygu diwylliant o rannu arbenigedd ac adnoddau rhwng partneriaid.

Mae pwysigrwydd dadansoddi data yn mynd law yn llaw gydag ymgysylltu gyda'r cyhoedd er mwyn creu sail dystiolaeth gadarn, er mwyn nodi a phennu'r blaenoriaethau cywir ar gyfer y Fro. Felly, paratowyd strategaeth Gwybodaeth ac Ymgysylltu er mwyn pwysleisio ymrwymiad hirhoedlog y Bwrdd Gwasanaethau Lleol tuag at ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus effeithiol. Mae'r Grŵp Deallusrwydd Busnes yn ymwneud gyda'r gwaith hwn, gan alluogi'r holl bartneriaid i rannu gwybodaeth ynghylch prosiectau ymgysylltu ac ymgynghori a fydd yn digwydd cyn bo hir. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau bod llais dinasyddion a chymunedau yn cael ei glywed, a bydd yn rhoi cyfle ystyrlon i'n preswylwyr fynegi eu barn am y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Fel y dangosir, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cydnabod pwysigrwydd a manteision gweithio mewn partneriaeth yn y Fro, fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio ar draws ffiniau rhanbarthol hefyd, a gwerth y llif rhwydweithiau gwybodaeth ar draws y ffiniau hyn. Rydym yn cydnabod arwyddocâd gweithio gyda'n cymdogion rhanbarthol er mwyn cyfuno gwybodaeth ac adnoddau, er mwyn darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon ac ystyrlon. O gofio hyn, mae'r cyfle i ddatblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd rhwng Caerdydd a'r Fro yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Yn yr un modd ag y mae'r angen am weithio rhanbarthol yn cael ei gydnabod, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gwerthfawrogi'r ffaith hefyd bod angen dull gweithredu mwy lleol a gyda mwy o ffocws ar rai materion, ac y dylai'r gwaith ddigwydd ar lefel

gymunedol mewn rhai achosion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau. Adolygwyd y trefniadau ar gyfer grwpiau ardal yn y Fro ac mae BGLI wedi cymeradwyo'r argymhellion ynghylch mabwysiadu dull gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn delio ag unrhyw faterion na ddeliwyd gyda nhw yn barod trwy gyfrwng grŵp sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn osgoi dyblygu, gan sicrhau bod yr arbenigedd cywir yn cael ei ddefnyddio er mwyn delio gyda materion y mae angen datrysiad mwy lleol ar eu cyfer.


Mae gweledigaeth deng mlynedd y Strategaeth Gymunedol yn ddarlun uchelgeisiol o'n sefyllfa yn 2021 ac mae modd ei gyflawni os bydd partneriaid yn cydweithio. Un o'r rhwystrau y mae'n rhaid i ni eu goresgyn yn aml yw diffyg adnoddau a dyma pam ei bod mor bwysig ein bod yn gwerthuso ein cynnydd ac yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu lle y gwelir yr angen mwyaf a lle y mae modd i ni wneud gwahaniaeth. Rydym wedi gwneud trefniadau rheoli perfformiad cadarn yr ydym yn parhau i'w datblygu a bydd y rhain yn cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn y Fro, gan helpu i wella'r gwasanaethau a ddarparir ar draws yr holl bartneriaid.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig asesiad o'r wybodaeth a sicrhawyd trwy gyfrwng y trefniadau rheoli perfformiad hyn yng ngoleuni'r deg canlyniad blaenoriaeth. Trwy werthuso perfformiad wrth gyflawni'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cyflawni, bydd modd i'r partneriaethau symud ymlaen i'r flwyddyn i ddod gyda darlun holistig o'r meysydd lle y gwnaethpwyd cyflawniadau arwyddocaol, ynghyd â meysydd lle y mae sialensiau i'w hwynebu a sut y bydd modd gwneud gwaith i oresgyn y rhain.

Bywyd yn y Fro: Cipolwg.

Mae'n bwysig ystyried sut y mae'r sefyllfa yn y Fro wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf ac isod, dangosir nifer o graffiau sy'n cynnig diweddariadau am rywfaint o'r data allweddol a ddefnyddir ac maent yn cynnig cyd-destun ar gyfer y Fro. Er ei bod yn rhy gynnar i weld pa effaith y mae'r Strategaeth Gymunedol wedi ei chael ar yr holl faterion hyn, maent yn dangos y cyfeiriad a gymrwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gan helpu i ddangos pa wahaniaeth sy'n cael ei wneud ac a ydym yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.


126,300 yw cyfanswm poblogaeth y Fro yn ôl Cyfrifiad 2011 ac mae hwn yn cynrychioli cynnydd o 5.9% er y cyfrifiad a gynhaliwyd yn 2001. Disgwylir i'r ffigwr hwn godi gymaint â 0.7% bob blwyddyn tan 2023. Yn ogystal, disgwylir i broffil oedran poblogaeth y Fro newid hefyd; rhagwelir y bydd nifer y plant (0-14 oed) yn codi o 22,650 yn 2008 i 24,885 yn 2023 ac y bydd nifer y bobl 65+ oed yn codi o 22,119 yn 2008 i 31,413 yn 2023.



Mae'r graffiau canlynol yn helpu i gynnig cyd-destun ar gyfer ein gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n amlwg o edrych ar nifer o'r graffiau bod y perfformiad yn gymharol sefydlog ac na welir unrhyw ostyngiad neu godiad arwyddocaol yn y perfformiad. Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd heriol, gall hyn fod yn arwydd ein bod yn llwyddo i gynnal y perfformiad ac fe allai hyn fod yn gyflawniad arwyddocaol ynddo'i hun. Fodd bynnag, dylem gwestiynu hefyd a oes modd i ni wneud mwy, a oes modd i ni wella, a oes modd gwneud pethau mewn ffordd wahanol, gan arwain at ganlyniadau gwell. Rôl BGLI fydd cynnig yr her hon a sicrhau, ble bynnag y bo modd gwneud gwelliannau a lle y bo modd i ni sicrhau newid, ein bod yn cydweithio i gyflawni hyn.

Mae'r graffiau yn helpu i ddangos y tueddiadau o ran preswylwyr y maent yn economaidd weithgar, y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, incwm crynswth i'w wario a'r sawl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith.


Incwm aelwydydd crynswth i'w wario £ y pen



Data gan Lywodraeth Cymru

Mae'r linell werdd yn dynodi'r Cyfartaledd yng Nghymru


Canran y preswylwyr o oedran gweithio yn y Fro y maent yn economaidd weithgar



Data gan Ystadegau Marchnad Lafur Nomis


Mae'r linell werdd yn dynodi'r Cyfartaledd yng Nghymru

Cyfanswm y plant yn y Fro y maent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Canran y preswylwyr oedran gweithio ym Mro Morgannwg y maent yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.




Data gan Ystadegau Marchnad Lafur Nomis

Mae'r linell werdd yn dynodi'r Cyfartaledd yng Nghymru

Mae'r graffiau isod yn dangos y gostyngiad yn nifer yr achosion beichiogi ymhlith pobl ifanc dan 16 ac 18 oed a chanran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig, y mae wedi gostwng o 0.55% i 0.13% .

Niferyr achosion beichiogi (fesul 1000 o'r boblogaeth) ymhlith pobl ifanc dan 16 oed a dan 18 oed ym Mro Morgannwg




Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r linell werdd yn dynodi'r Cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer y rhai dan 16 oed

Mae'r linell goch yn dynodi'r Cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer y rhai dan 18 oed

Canran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Mae'r linell werdd yn dynodi'r Cyfartaledd yng Nghymru

Sut ydym yn gwneud?

Yn ystod 2012/13, gwelwyd nifer o newidiadau sydd wedi cael effaith uniongyrchol ar y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gymunedol. Mae BGLI a phartneriaethau allweddol wedi parhau i addasu er mwyn wynebu sialensiau newydd a dros y deuddeg mis diwethaf, gwelwyd cynnydd arwyddocaol yn erbyn y deg canlyniad blaenoriaeth yn y strategaeth, a nodir manylion y rhain ar dudalennau 13 i 32.

Rydym wedi cydweithio er mwyn ymateb i'r newidiadau yn y system lles, gan gynnal nifer o sioeau teithiol er mwyn darparu gwybodaeth i'r sawl y byddant yn cael eu heffeithio. Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau ac rydym wedi sefydlu gweithgor aml-asiantaeth. Rydym wedi ymateb i newid cyfeiriad o fewn menter Cymunedau yn Gyntaf hefyd, gyda'r pwyslais ar drefniadau clwstwr newydd. Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf y Barri oedd un o'r rhai cyntaf i'w datgan yn hwyr yn ystod 2012 a bydd sefydlu Bwrdd Clwstwr newydd er mwyn datblygu agenda Cymunedau yn Gyntaf yn y Barri yn cael ffocws allweddol yn ystod 2013.

Un maes arall y rhoddwyd ffocws iddo yw datblygu ein deallusrwydd busnes ac erbyn hyn, rydym wedi gweithredu'r sylfeini ar gyfer dull gweithredu cynaliadwy tuag at ddadansoddi data a chael tystiolaeth gadarn er mwyn dylanwadu ar ein gweithgareddau. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos gyda datblygiad ein trefniadau rheoli perfformiad. Mae'r gwaith yn y maes hwn yn gallu bod yn gymhleth o ganlyniad i nifer y partneriaid sy'n darparu data a gwybodaeth am berfformiad, yr amserlenni er mwyn casglu data e.e. blwyddyn galendr, blwyddyn ariannol, blwyddyn academiaidd ac amseroldeb y data e.e. bydd rhywfaint o'r data ar gael bob dwy flynedd yn unig ac mae'r data diweddaraf yn gallu adlewyrchu'r sefyllfa sawl blynedd yn ôl. Er bod y wybodaeth hon yn bwysig wrth ddangos tueddiadau a chreu darlun o'r sefyllfa dros gyfnod o amser, nid yw'n cynnig darlun taclus o'r perfformiad dros gyfnod o ddeuddeg mis. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu mesurau perfformiad priodol a bydd hwn yn ddarn o waith allweddol wrth i ni ddechrau datblygu ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2014-18. Caiff y cynllun hwn ei ddatblygu trwy gyfeirio at Strategaeth Gymunedol 2011-21, y perfformiad hyd yn hyn a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Darparir manylion y cynnydd ar gyfer y deg canlyniad blaenoriaeth o fewn yr adroddiad hwn, ond rydym wedi cynnal dadansoddiad o'r perfformiad cyffredinol hefyd, gan nodi rhai o'r meysydd y bydd BGLI yn canolbwyntio arnynt yn ystod 13/14.

Mae gwella gweithgarwch **ymgysylltu** yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer BGLI ac mae'r gwaith wedi symud yn ei flaen i ddatblygu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig, ac rydym wedi dechrau datblygu rhwydwaith o swyddogion ar draws partneriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd nifer o arolygon trwy gyfrwng Viewpoint y Fro, Panel Dinasyddion BGLI. Er bod y

canlyniadau wedi cyfrannu at sawl darn o waith, mae'r cyfraddau ymateb wedi bod yn siomedig. Y gyfradd ymateb i'r arolwg ym mis Ionawr 2013 oedd 34% ac roedd hwn 4% yn is nag yr oedd ar gyfer yr arolwg ym mis Medi 2012. Mae ymchwil ynghylch paneli a sefydlwyd gan awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wedi dynodi bod y gyfradd ymateb hon yn gymharol nodweddiadol. Er mwyn cynyddu cyfanswm yr ymatebion, mae proses barhaus o hyrwyddo a recriwtio bellach wedi cychwyn. Mae dulliau arloesol o annog rhagor o bobl i ymateb yn cael eu hymchwilio hefyd. Mae Viewpoint y Fro yn un offeryn yn unig a ddefnyddir gan bartneriaid, ond rydym yn awyddus i wella ei werth fel dull o ymgynghori.

Un enghraifft dda o'r cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio ar **wasanaethau lleol** yw'r cynnydd mewn ffigurau aelodaeth llyfrgelloedd. Yn ystod 2012/13, gwelwyd cyfanswm y sawl sy'n aelodau o lyfrgelloedd yn codi 2,059, sef cynnydd o 4.3%. Yn ogystal, gwelwyd canran y plant ym mhoblogaeth y Fro y maent yn 15 oed ac yn iau ac yn aelodau o lyfrgell yn codi hefyd, o 63% i 68% a gwelwyd nifer y trawiadau ar adran y plant ar dudalennau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar y we yn codi o 3,862 i 5,547. Bydd y defnydd arloesol o'n llyfrgelloedd yn parhau i gael ei ystyried.

Mae canran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig yn parhau i ostwng ac mae ffigurau **NEET** wedi parhau i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau na fydd y ffigurau hyn yn codi yn yr hinsawdd economaidd presennol. Yn arbennig, mae gwaith yn canolbwyntio ar grŵp oedran 16-18 ac mae'n cael ei gydnabod hefyd bod adnabod unigolion y gallent ddatblygu i fod yn NEET yn gynnar, a gweithredu mesurau ymyrraeth priodol, yn gallu bod yn rhan allweddol o'r gwaith o barhau i ostwng y niferoedd ym mhob grŵp oedran.

Roedd arolygiad a gynhaliwyd gan Estyn yn ddiweddar o **addysg oedolion ac addysg gymunedol** yn siomedig, gan nodi nifer o feysydd i'w gwella, yn enwedig o ran y ffordd y mae partneriaid yn herio'r gwasanaeth a ddarparir. Mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid er mwyn ymateb i'r arolygiad ac adroddir am y cynnydd i BGLI. Fodd bynnag, er gwaethaf canfyddiadau'r arolygiad, mae'r lefelau bodlonrwydd gydag addysg oedolion yn parhau i fod yn uchel, sef 99%, ac roedd sail gadarn i'w gweld yn y maes hwn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Trwy weithio mewn partneriaeth i dargedu adnoddau, gwelwyd ystod eang o fanteision i **gymunedau** ar draws y Fro. Trwy gyfrwng Ardal Adfywio y Barri, Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Gwledig Creadigol, rydym wedi llwyddo i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys dynodi buddsoddiad o £3.3 miliwn ar gyfer Ynys y Barri yn ystod 2013/14, cyfleusterau cymunedol newydd, gwelliannau i barciau a lleoedd agored a chymorth ar gyfer busnesau gwledig. Yn ogystal, mae cynllun grantiau 'Kick Start' CGGF wedi cynnig y cyfle i grwpiau cymunedol ar draws y Fro i fanteisio ar grantiau cyfalaf bach yr oedd angen mawr amdanynt.

Mae'r lefel **drosedd** wedi gostwng yn y Fro, gyda gostyngiad o 55 digwyddiad yn ystod 2012-13. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 7.3% o ran difrod troseddol a gostyngiad o 17.7% o ran troseddau yn ymwneud â chyffuriau. Er y cynhaliwyd llai o weithgareddau ymgysylltu gyda'r cyhoedd trwy gyfrwng y bartneriaeth, bu cynnydd arwyddocaol yn y gwaith o hyrwyddo negeseuon diogelwch cymunedol, a chynhaliwyd Diwrnod Agored hynod o lwyddiannus ym mis Hydref 2012, a fynychwyd gan oddeutu 3,000 o breswylwyr.

Comisiynwyd Cronfa Kings ac Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru gan Fwrdd Rhaglen **Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig** Caerdydd a'r Fro i gynnal Adolygiad Integredig o'r Gwasanaethau ac i gynnig cyngor arfer gorau ynghylch y ffordd orau ymlaen. Mae'r adroddiad cychwynnol wedi gwneud nifer o argymhellion o ran y ffordd ymlaen ar gyfer gwasanaethau integredig ar draws Caerdydd a'r Fro. Mae'r adolygiad wedi bod yn ffocws gweithgarwch yn ystod 2013 a bydd y canfyddiadau yn galluogi cynnydd pellach i gael ei wneud yn ystod 2013/14.

Yn ogystal, mae'r gwaith wedi parhau i roi sylw i **anghydraddoldebau iechyd** ac yn arbennig, i wahaniaethau o ran disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd mwy difreintiedig yn y Fro a'r ardaloedd mwy cefnog. Cynhaliwyd mentrau er mwyn hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach ond ceir pryder o hyd ynghylch lefelau gordewdra a bwyta'n iach yn y Fro. Maes arall y rhoddwyd ffocws iddo fu imiwneiddio ac mae'r ffigurau yn dangos, o blith 23,843 o bobl 65+ oed yn y Fro yr oeddent yn gymwys i gael brechiad rhag y Ffliw, bod 16,843 o gleifion wedi cael y brechiad. Mae'r gyfradd hon a wnaeth fanteisio arno, sef 70.5%, yn uwch na'r Cyfartaledd yng Nghymru, sef 67.7%. Yn yr un modd, roedd y gyfradd ymhlith cleifion y bernir eu bod yn wynebu risg uchel yn y Fro yn 52.4%, y mae hefyd yn uwch na'r Cyfartaledd yng Nghymru, sef 49.7%. Fodd bynnag, nid yw'r ddau yn llwyddo i gyflawni'r targed cenedlaethol sef 75%, sy'n golygu bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd er mwyn gwella'r gyfradd sy'n manteisio arno. Bydd Bwrdd Iechyd a Lles y Cyhoedd yn parhau i ddatblygu gwaith er mwyn rhoi sylw i'r blaenoriaethau hyn ym Mro Morgannwg ac er mwyn hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach.

Rhennir yr adroddiad yn ddeg adran wedi'u seilio ar y canlyniadau blaenoriaeth. Mae pob adran yn darparu gwybodaeth am y perfformiad a'r canlyniadau, y gwaith rhanbarthol sy'n digwydd, datblygu data, sialensiau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer 2013/14.


Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau am yr adroddiad hwn, cysylltwch â'r Tîm Partneriaeth ar 01446 731628 neu anfonwch e-bost at valelsb@valeofglamorgan.gov.uk

Canlyniad Blaenoriaeth 1: Mae pobl o bob oed yn ymgysylltu mewn ffordd weithredol ym mywyd y Fro ac maent yn meddu ar y gallu a'r hyder i nodi eu hanghenion eu hunain ac anghenion y gymuned.

Cyflawniadau Allweddol


- Mae panel dinasyddion ar y cyd BGLI, Viewpoint y Fro, wedi cael ei ddefnyddio er mwyn cyfrannu at amrediad o fentrau gan BGLI yn y Fro, gan gynnwys gwella'r cyswllt gyda chwsmeriaid, manteisio ar wybodaeth ynghylch iechyd a datblygu mwy o gymorth ar gyfer gofalwyr.
- Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r cymhellion wrth ymgynghori a bydd hwn yn cyfrannu at ddull gweithredu gwell nawr wrth recriwtio aelodau i Viewpoint y Fro ac wrth eu cadw, ac wrth hyrwyddo prosiectau ymgysylltu yn gyffredinol.
- Gwnaethpwyd gwaith trwy gyfrwng y Grŵp Deallusrwydd Busnes i ystyried y potensial o gysoni swyddogaethau ymgynghori partneriaid amrywiol BGLI ac mae rhwydwaith anffurfiol o ymarferwyr ymgysylltu wedi cael ei sefydlu erbyn hyn.
- Lluniwyd nifer o ddulliau pwrpasol er mwyn caniatáu i bartneriaid ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl, gan gynnwys grwpiau mwy anodd i'w cyrraedd. Sefydlwyd mecanweithiau er mwyn ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys datblygu Maer leuenctid a Chabinet leuenctid newydd ar gyfer Bro Morgannwg, y byddant yn cael eu hethol yn 2013. Ceir Fforwm leuenctid y Fro eisoes sy'n weithredol. Er mwyn sicrhau bod preswylwyr hŷn yn ymgysylltu lawn gymaint, ymgynghorwyd gyda Fforwm Strategaeth 50+ y Fro ynghylch amrediad o faterion ac mae wedi bod yn weithredol iawn wrth ymateb i nifer o ymgynghoriadau.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda gofalwyr ifanc ym mis Ionawr er mwyn cyfrannu at ddatblygiad gwasanaethau wedi'u targedu yn y dyfodol.
- Cynhaliodd y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol 15 ymgynghoriad cymunedol ar wahân yn ystod 2012/13 er mwyn helpu i gyfrannu at ddatblygiad gwledig yn y Fro.
- Mae gwaith y trydydd sector yn y Fro yn parhau i fod yn hynod o werthfawr a gwelwyd gwerth ariannol gwirfoddoli yn y Fro yn codi gymaint â dros £6.5 miliwn yn ystod 2012/13. Ceir 464 o sefydliadau sy'n aelodau o CGGF, caiff chwech rhwydwaith trydydd sector gymorth 4 gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd ac yn ystod 2012/13, cynhaliodd y sector gwirfoddol 9 ddigwyddiad ymgynghori ynghylch materion megis atal pobl rhag syrthio. Mae'r trydydd sector wedi datblygu gweithgornau ar y cyd gyda Chaerdydd hefyd.

Y dull a ffafrir gan breswylwyr er mwyn ymateb i ymgynghoriad



Data gan Arolwg Viewpoint y Fro Ionawr 2013

Gwerth Ariannol Gwirfoddoli ym Mro Morgannwg



Data gan Fiwro Gwirfoddolwyr y Fro

Gweithio Rhanbarthol

- Mae Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda BIP Caerdydd a'r Fro er mwyn cynnal rhaglen ymgysylltu ar y cyd sy'n rhychwantu 2012/13 a 2013/14, er mwyn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau o ansawdd gwell a gwasanaethau a fydd yn cynorthwyo mwyafrif y gofalwyr yn y rhanbarth, os nad pob un ohonynt
- Bu partneriaid BGLI yn cydweithio er mwyn hyrwyddo nifer o ymgynghoriadau polisi allweddol ar y cyd a fyddai'n effeithio ar wasanaethau yn y Fro, gan gynnwys Rhaglen De Cymru, Amcanion Gwella Tân ac Achub DC a Chynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg.


Sialensiau

- Mae datblygu mesur manwl ynghylch ymgysylltu gyda'r cyhoedd ym Mro Morgannwg yn parhau i fod yn her sylweddol.
- Mae angen i bartneriaid gydweithio er mwyn cynnal lefelau ymgysylltu, cyfuno adnoddau a defnyddio dulliau gweithredu arloesol er mwyn cyrraedd cymaint o bobl ag y bo modd ar draws y Fro.
- Roedd nifer yr ymatebion a gafodd arolwg cyntaf Viewpoint y Fro yn siomedig, felly cynhaliwyd adolygiad o'r cymhellion a ddefnyddir gan sefydliadau cyhoeddus eraill ar hyn o bryd. Er mwyn helpu i sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r panel a'i weithgareddau, prynwyd ystod o ddeunyddiau hyrwyddo a mabwysiadwyd dull gweithredu newydd tuag at recriwtio.


Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14

- Gweithredu Strategaeth Wybodaeth ac Ymgysylltu BGLI newydd.
- Datblygu gwefan newydd BGLI er mwyn galluogi partneriaid i gydlynu gwaith ac i gydweithio er mwyn clywed safbwyntiau ystod ehangach o randdeiliaid.
- Mae 'Arolwg Mawr' newydd ar gyfer pobl ifanc yn cael ei ddatblygu, y byddai modd ei gyflwyno trwy ysgolion ym Mro Morgannwg er mwyn galluogi partneriaid i ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc ynghylch ystod eang o faterion.
- Parhau i ymgysylltu'r cyhoedd gyda'r sector gwirfoddol trwy gyfrwng Prosiect Consortiwm Llais Cymunedol y Trydydd Sector, a ariannir trwy'r gronfa loteri FAWR.

Canran y preswylwyr y maent yn teimlo bod modd iddynt ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol



Ymatebion i Arolwg Viewpoint y Fro



Canlyniad Blaenoriaeth 2: Bodlonir anghenion amrywiol pobl leol trwy ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau hygrych sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.


Cyflawniadau Allweddol 2012/13

- Mae Meddalwedd Adborth gan Gwsmeriaid newydd yn galluogi i gwsmeriaid roi adborth ar ddiwedd galwadau i Ganolfan Gyswllt y Cyngor trwy gyfrwng system awtomatig, a cheir potensial y bydd modd cyflwyno'r meddalwedd i wasanaethau eraill.
- Mae lle gweithio ychwanegol wedi cael ei greu yng Nghanolfan Gyswllt y Cyngor y bydd modd i Feddygon Teulu ei ddefnyddio ar benwythnosau er mwyn gwella'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol a gynigir i gwsmeriaid.
- Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar ffurf sioeau teithiol er mwyn rhoi cyngor, cymorth a gwybodaeth i bobl leol am amrediad o bynciau sy'n gysylltiedig gyda'r trefniadau diwygio lles
- Mae Tŷ Tregatwg yn darparu cyfleuster 'cyswllt byw' ar gyfer y Fro; cyswllt uniongyrchol i lys Ynadon Caerdydd sy'n galluogi cleientiaid agored i niwed i roi tystiolaeth mewn amgylchedd diogel ac anfygythiol.
- Lanswyd gwasanaeth newydd gyda Chyngor ar Bopeth er mwyn rhoi cyngor ynghylch gwahaniaethu, gan ymestyn yr oriau agor a chynyddu'r cyfleoedd i fanteisio ar gyngor ynghylch gwahaniaethu.
- Paratowyd Cyfeiriadur Aelodaeth CGGF sy'n darparu gwybodaeth ynghylch ystod eang y mudiadau gwirfoddol sy'n weithredol yn y Fro a pha gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael. Yn ogystal, mae CGGF wedi cynhyrchu Cyfeiriadur i Ofalwyr, y mae copïau ohono ar gael ym mhob ward ysbyty ac ym mhob meddygfa. Defnyddir y cyfeiriadur gan Feddygon Teulu a Galw lechyd Cymru hefyd.
- Datblygwyd dulliau gweithredu mwy arloesol ynghylch sut y darparir cyngor a gwybodaeth trwy wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol, negeseuon cymunedol a diwrnodau hwyl i'r teulu. Mae CGGF er enghraifft, yn anfon e-fwletinau i dros 500 o dderbynwyr ddwywaith yr wythnos.

Gweithio Rhanbarthol

- Mae Rhaglen De Cymru yn cynnwys pum Bwrdd lechyd sy'n gweithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru er mwyn creu gwasanaethau ysbyty cynaliadwy a diogel ar gyfer pobl sy'n byw yn Ne Cymru ac yn Ne Powys. Mae partneriaid ar draws y rhanbarth wedi bod yn cydweithio i sicrhau yr ymgynghorir yn llawn gyda phreswylwyr ynghylch y cynigion ac er mwyn ystyried goblygiadau'r newidiadau arfaethedig.

Nifer y Galwadau i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol y Deliwyd gyda nhw gan y Ganolfan Gyswllt fesul Math o Alwad




■ Nifer y Galwadau y Tu Allan i Oriau Swyddfa i Feddygon Teulu y Deliwyd â nhw
■ Nifer y Galwadau yn ystod y Dydd i BIP y Deliwyd â nhw
■ Nifer y Galwadau Deintyddol i BIP y Deliwyd â nhw
■ Nifer y Galwadau i Nyrsys Ardal BIP y Deliwyd â nhw
■ Nifer y Galwadau i Flaen Swyddfa BIP y Deliwyd â nhw
■ Nifer y Galwadau y Tu Allan i Oriau Arferol i BIP y Deliwyd
■ Nifer y Galwadau i Linell Eiddo BIP y Deliwyd â nhw

Sialensiau

- Gan gydnabod bod angen dull gweithredu gyda mwy o ffocws daearyddol ar rai materion ac y dylai'r gwaith ddigwydd ar lefel gymunedol mewn rhai achosion, sefydlwyd tri grŵp ardal yn y Fro yn 2011. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'r cynnydd, maent wedi cael eu terfynu a byddant yn cael eu disodli gan ddull gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i dargedu yn fwy, gan sicrhau bod yr aelodaeth gywir yn canolbwyntio ar fater penodol o fewn yr ardal leol. Caiff grwpiau eu sefydlu ar sail yr angen a nodwyd ac er mwyn delio gyda materion nad ydynt yn cael sylw gan grŵp sy'n bodoli eisoes, gan osgoi dyblygu a chan sicrhau bod yr arbenigedd gywir yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i bobl leol.
- Mae her yn bodoli ar draws yr holl bartneriaid i wella'r lefelau gwasanaeth cwsmeriaid a ddarparir yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14

- Adolygir Strategaeth Gwasanaeth i Gwsmeriaid y Cyngor, ynghyd â'r Strategaeth Sianel, gyda'r nod o greu un dogfen gydlynus ynghylch arfer gorau gwasanaeth cwsmeriaid, y bydd modd ei rhannu gyda phartneriaid.
- Ymchwilir i'r cam o gyflwyno meddalwedd adborth Gwasanaeth Cwsmeriaid mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys y Linell Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn C1V a Threth Gyngor.
- Bydd rheolwyr canolfan ar gyfer canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnal sesiynau addysg gyda grwpiau ethnig ac agored i niwed ynghylch hygyrchedd a/phriodolrwydd gwasanaethau.
- Bellach, cymeradwywyd cyllid ar gyfer Swyddog Gweithredu a fydd yn gyrru'r strategaeth a gweledigaeth y Ganolfan Gyfathrebu yn ei blaen. Bydd hon yn swydd ar y cyd rhwng y Cyngor a BIP.
- Mae'r potensial i lyfrgelloedd gyhoeddi cardiau teithio rhatach yn cael ei ystyried hefyd, ynghyd â'r posibilrwydd o sefydliadau trydydd sector yn dosbarthu eitemau megis bagiau ailgylchu er mwyn cynnig mwy o ddewisiadau i gwsmeriaid ynghylch ble y mae modd iddynt fanteisio ar wasanaethau.
- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gyda nifer o bartneriaid megis Cymdeithas Tai Newydd er mwyn cynnig hyfforddiant a mynediad i gyfleusterau TG i'r sawl sy'n hawlio budd-daliadau, er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol a'r mynediad at TG er mwyn rheoli'r newidiadau diwygio lles a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod 2013, gan gynnwys y system ar-lein newydd a ddefnyddir er mwyn ymgeisio am fudd-daliadau trwy gyfrwng Credyd Cynhwysol.
- Bydd yr Asesiad Anghenion Unedig yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn hysbysu gweithgareddau'r bartneriaeth a sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparir yn canolbwyntio ar yr ardaloedd lle y gwelir yr angen mwyaf amdano.



Canlyniad Blaenoriaeth 3: Mae preswylwyr a sefydliadau'r Fro yn parchu'r amgylchedd lleol ac yn cydweithio er mwyn ymateb i her y newid yn yr hinsawdd


Cyflawniadau Allweddol 2012/13

- Ehangwyd rhaglen cludiant cymunedol Greenlinks, a arferai gynnig gwasanaeth i'r ardaloedd gwledig yn unig yn flaenorol, ond bellach, mae'n gweithredu ar draws y Fro gyfan. Bellach, mae'r cynllun yn cynnwys sawl llwybr dynodedig ochr yn ochr â'r gwasanaeth archebu ymlaen llaw.
- Llwyddwyd i sicrhau cynnydd da wrth ddarparu llwybrau beicio yn y Barri, Penarth a'r Rhws, yn ogystal ag ardal wledig y Fro. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys llwybr cerdded/beicio a rennir yn Port Road, y Barri a chysylltiadau parhaus Pont-y-Werin ym Mhenarth (Parc Dingle a Penarth Heights).
- Mae ceisiadau llwyddiannus am gyllid ARBED gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi i oddeutu 500 o gartrefi yn ardal Adnewyddu Castleland i gael eu hystyried ar gyfer mesurau arbed ynni. Mae gwaith gyda Cymru Gynnes wedi arwain at gwblhau 300 o arolygon perfformiad ynni, a fydd yn arwain at gadarnhau 'map ynni' o'r ardal yn 2013/14.
- Er bod bodlonrwydd cwsmeriaid gydag ailgylchu, sef 94%, wedi gostwng rhyw ychydig o'r ganran flaenorol sef 97%, ac mae hyn yn parhau i fod yn ardderchog, mae'r cyfraddau ailgylchu wedi gwella. Yn ystod 2012/13, 54% oedd canran y gwastraff a ailgylchwyd ac mae'r ganran sy'n cael ei hanfon i safleoedd tirlenwi (45% ar hyn o bryd) yn gostwng.
- Dyfarnwyd gwobrau i bum traeth ym Mro Morgannwg fel rhan o wobrau arfordirol Cadwch Gymru'n Dacrus. Llwyddodd Marina Penarth i sicrhau statws y faner las am ddŵr ymdrochi glân, sicrhodd Cold Knapp a Southerndown wobwr yr Arfordir Gwyrdd a llwyddodd Bae Jackson a Bae Whitmore i sicrhau'r wobwr glân môr (man gwyliau).

Gweithio Rhanbarthol


- Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) i rym ar 1 Ebrill 2013, wrth i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddod ynghyd i ffurfio un corff. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol yn y dyfodol ar lefel leol ac ar lefel ehangach ar draws Cymru.
- Mae cyfleuster gwastraff rhanbarthol Viridor yn cael ei adeiladu ac fe ddylai gael ei gwblhau yn ystod 2015. Disgwylir i'r cynllun gynnig arbedion ariannol sylweddol i'r holl awdurdodau lleol dan sylw, gan helpu i wella cyfraddau ailgylchu.
- Cynhelir gwaith gyda Chyngor Caerdydd er mwyn gwella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y rhanbarth ac mae'r 19 potensial o gynnal gwasanaeth bws a fydd yn cysylltu Penarth a Bae Caerdydd trwy ddefnyddio'r Morglawdd yn cael ei ystyried.

Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi



Data gan Gyngor Bro Morgannwg


Nifer y gwobrau arfordirol cenedlaethol a sicrhwyd ar gyfer traethau'r Fro



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Sialensiau

- Mae partneriaid yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gynladwyedd fel cyrff unigol ond bydd y cwmplas ar gyfer dull gweithredu mwy cydgysylltiedig yn cael ei ystyried.
- Bydd paratoi ar gyfer gofynion deddfwriaeth arfaethedig Bil Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn her newydd.
- Gwelwyd cynnydd o 3.7% yng nghyfanswm yr allyriadau carbon fesul m² gan adeiladau'r Cyngor, BIP Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaeth Tân a Heddlu De Cymru yn y Fro. Mae hyn yn siomedig yng ngoleuni mentrau a gynhaliwyd er mwyn arbed ynni a byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn nodi sut y mae modd i ni arbed ynni.
- Mae gostyngiadau mewn grantiau trafndiaeth wedi arwain at newidiadau mewn gwasanaethau bws, yn enwedig yn ardal wledig y Fro, a bydd angen adolygu gwasanaethau ymhellach, a bydd hyn yn cael effaith ar y cyfleoedd i'r holl bartneriaid fanteisio ar wasanaethau.



Mae'r data ar gyfer yr holl adeiladau lle y mae lle llawr (m²) yn hysbys ac yn cael ei gasglu oddi wrth bartneriaid gan Gyngor Bro Morgannwg


Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14

- Creu Cynllun Datblygu Lleol cadarn fel fframwaith er mwyn siapio a hyrwyddo twf buddiol, priodol a chynaliadwy yn y Fro.
- Cynhelir adolygiad o wasanaethau bws sy'n cael cymorth er mwyn adlewyrchu'r pwysau ar gyllideb y gwasanaeth bws cymorthdaledig.
- Datblygu cynlluniau rheoli llifogydd a chynlluniau lleihau a lleddfu llifogydd yn unol â gofynion y Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr.
- Caiff potensial prosiect pontio'r cenedlaethau ei ystyried er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy.
- Caiff prosiect ymdeimlad o le /brandio newydd ei ddatblygu trwy gyfrwng Cymunedau Gwledig Creadigol er mwyn helpu i ddiogelu a hyrwyddo'r Arfordir Treftadaeth.

Canlyniad Blaenoriaeth 4: Caiff Pobl Hŷn eu gwerthfawrogi a'u grymuso i barhau i fod yn annibynnol, yn iach ac yn weithredol. Byddant yn manteisio ar gyfle cyfartal ac yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel er mwyn bodloni eu hanghenion amrywiol.

Cyflawniadau Allweddol

- Mae prosiect Cyfeillio AdvantAGE a arweinir gan Ganolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro yn cynnig amrediad o wasanaethau cyfeillio er mwyn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, a gwella lles pobl gan gynnwys gofalwyr 50+ oed. Ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf, mae'r prosiect wedi cyrraedd 182 o fuddiolwyr unigol, gan ragori ar ei darged o gyrraedd 100 o fuddiolwyr ac mae wedi cael dros 50 o wirfoddolwyr.
- Yn ystod 2012/2013, gwelwyd 2,046 o bobl dros eu hanner cant yn cofrestru ar gyrsiau addysg oedolion cymunedol yn y Fro, gan ddysgu sgiliau newydd a sicrhau cymwysterau.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y rhai dros eu hanner cant y mae ganddynt TeleV neu TeleV+. Yn arbennig, mae nifer y rhai sy'n ddefnyddwyr gweithredol TeleV+ wedi codi o 30 i 104 er 2011/12.
- Mae Ymgyrch Wyn, sy'n ceisio helpu pobl sy'n eiddil ac yn oedrannus i gynnal eu hannibyniaeth, wedi galluogi datblygiad gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon, lle y mae'r dinesydd wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fwyfwy.
- Rhoddir cymorth i Fforwm Strategaeth 50+ y Fro, y mae'n parhau i fod yn hynod o weithgar, gan gynnig llais i bobl hŷn yn y Fro. Mae'r Fforwm yn cynhyrchu cylchlythyr o'r enw 'The Herald' ddwywaith y flwyddyn a gyda help gwirfoddolwr o Fiwro Gwirfoddolwyr y Fro, mae wedi lansio gwefan newydd.
- Mae partneriaid wedi gweithio gyda'r Fforwm ar amrediad o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn er mwyn amlygu materion yn ymwneud â cham-drin pobl hŷn, masnachwyr twyllodrus, heneiddio'n egnïol a materion yn ymwneud ag iechyd a lles.
- Bellach, ceir pum grŵp clwstwr Fforwm gan gynnwys grŵp ar gyfer y rhai y mae ganddynt nam ar eu golwg ym Mhenarth. Mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod grwpiau a digwyddiadau yn fwy hygyrch i aelodaeth fforwm ehangach ac i'r cyhoedd.



Gweithio Rhanbarthol

- Mae gwasanaeth rhyddhau integredig wedi cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod trefniadau yn fwy di-dor ar gyfer y rhai y mae ganddynt anghenion gofal cymhleth. Mae hwn wedi'i leoli yn ysbytai Llandochoau a'r Mynydd Bychan ac mae'n cael ei drefnu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg.


Sialensiau

- Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i Ddatganiad Dulyn ynghylch Dinasoedd a Chymunedau sy'n Ystyried Anghenion Pobl Hŷn. Bydd partneriaid yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y Fro yn amgylchedd sy'n ystyried anghenion pobl hŷn.
- Cynorthwyo Fforwm Strategaeth 50+ y Fro i ffurfio cysylltiadau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, lleoliadau gofal ac ardaloedd ynysig er mwyn galluogi grwpiau yr oeddent yn ynysig yn flaenorol i ymgysylltu â phrosesau ymgynghori.
- Darparu gwasanaethau priodol er mwyn bodloni anghenion iechyd a gofal cymdeithasol poblogaeth sy'n heneiddio a chan gydnabod bod nifer o bobl hŷn yn gweithio o hyd ac yn dymuno meithrin sgiliau newydd neu angen cymorth i'w cynorthwyo i ofalu am aelod o'r teulu.

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14


- Bydd partneriaid yn cydweithio er mwyn cyflawni Cam Tri Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru.
- Cyflawnir gwaith ar draws yr holl sectorau er mwyn cynnal dull gweithredu cymunedol ac ataliol tuag at gynorthwyo pobl hŷn i fyw bywyd mor annibynnol ag y bo modd, gan gynnwys pobl y mae ganddynt salwch sy'n gysylltiedig â dementia.
- Byddwn yn sicrhau bod mwy o wasanaethau ail-alluogi ac adsefydlu ar gael sy'n helpu pobl hŷn y maent yn wynebu argyfwng, trwy gyfrwng ymgyrch Wyn
- Cynhelir digwyddiadau yn ystod 2013 er mwyn codi ymwybyddiaeth o bobl hŷn y maent yn cael eu cam-drin a hefyd, er mwyn trafod materion diwedd oes. Trefnir digwyddiadau yn yr Hydref a fydd yn canolbwyntio ar iechyd a lles a hyrwyddo'r brechiad rhag y fflw ac ymwybyddiaeth o atal pobl rhag syrthio.
- Caiff Fforwm Strategaeth 50+ y Fro ei gynorthwyo i ddatblygu menter pontio'r cenedlaethau sy'n gysylltiedig gyda phrosiect straeon hel atgofion, gan integreiddio profiad digidol a TG pobl ifanc.

Nifer y pecynnau TeleOfal a ddarparwyd i'r rhai dros 50 oed



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Cyfradd y bobl hŷn (65+ oed) sy'n cael eu cynorthwyo yn y gymuned neu mewn cartrefi gofal




Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Canlyniad Blaenoriaeth Pump: Mae Plant a Phobl Ifanc yn y Fro yn wybodus ac yn cael eu cynorthwyo i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau o ansawdd, sy'n eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn eu cymunedau lleol a thu hwnt.

Cyflawniadau Allweddol

- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn parhau i ymateb i anghenion teuluoedd. Gwnaethpwyd dros 2,221 o ymholiadau i'r gwasanaeth naill ai dros y ffôn, mewn neges e-bost neu yn ystod gwaith allgymorth, sef 185 o ymholiadau y mis ar gyfartaledd ar gyfer 2012/13. Mae hwn yn gynydd o 38% o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Llwyddodd 8 ysgol i sicrhau Tystysgrif Cyflawniad Ysgol GGD a llwyddodd GGD i sicrhau Gwobr Ansawdd Teuluoedd yn Gyntaf NAFIS.
- Mae 70 o deuluoedd wedi cael cymorth estynedig gan Dîm FACT.
- Manteisiodd 384 o bobl ifanc ar gyfnod o gwnsela ac roedd hyn yn cyfateb â 1,921 o sesiynau unigol, gyda benywod yn cyfateb â 60% o'r rhai a wnaeth fanteisio ar y gwasanaeth. Mae'r lefelau bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth wedi parhau i fod yn uchel.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynlluniau i ehangu Dechrau'n Deg a chynyddu nifer y plant sy'n manteisio ar wasanaethau. Yn sgil hyn, bydd y 627 o blant gwreiddiol yr oeddent yn gymwys i fanteisio ar wasanaeth Dechrau'n Deg bob blwyddyn, yn codi i 1,099 erbyn 2014-15.
- Gwnaeth y grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol gynorthwyo 2 leoliad Cymraeg i ddatblygu lleoedd gofal plant, cynorthwywyd 4 darparwr y tu allan i'r ysgol i greu lleoedd newydd, manteisiodd 47 o blant ar le gofal plant gyda chymorth (plant mewn angen) a manteisiodd 33 o blant ar le ar gyfer plentyn ag anabledd.
- Mae gwirfoddolwyr a hyfforddwyr mewn ysgolion wedi llenwi 364 lle ar gwrs hyfforddi / dyfarnu. Mae'r rhain yn amrywio o gyrsiau ar gyfer chwaraeon penodol megis Arweinwyr Tennis, i gyrsiau generig megis Cymorth Cyntaf ac Amddiffyn a Diogelu Plant.
- Cynhaliwyd sawl digwyddiad er mwyn dathlu a chydabod cyflawniadau pobl ifanc gan gynnwys Gwobrau Ieuenctid a dathliad Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Cynhaliwyd digwyddiad er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r trefniadau Diwygio Lles gan Gyngor ar Bopeth. Mynychwyd y digwyddiad gan 120 o gynrychiolwyr a fu'n dysgu mwy am y newidiadau ac yn trafod y goblygiadau tebygol i deuluoedd.
- Mae nifer y newydd-ddyfodiaid i'r System Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i fod yn isel.

Canran y bobl ifanc sy'n mynegi bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth cwnsela



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Gweithio Rhanbarthol

- Mae Achos Busnes yn cael ei ddatblygu er mwyn ystyried y dewisiadau a manteision Gwasanaeth Ieuenctid ar y cyd ar gyfer y Fro a Phen-y-bont ar Ogwr.
- Mae tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn cymryd rhan mewn grŵp cenedlaethol a sefydlwyd er mwyn rhannu arfer da a datblygiadau ar gyfer Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF).


Sialensiau

- Mae ailstrwythuro nifer o sefydliadau partner a gwahanol brosiect rhanbarthol wedi cael effaith ar y ffordd y bydd rhai gweithgareddau yn cael eu darparu. Bydd angen i'r bartneriaeth ailystyried y dull gweithredu gwreiddiol ar gyfer nifer o weithgareddau er mwyn sicrhau bod anghenion a nodwyd yn cael eu bodloni, bod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o adnoddau ac er mwyn adlewyrchu dull gweithredu mwy integredig a rhanbarthol tuag at ddarparu gwasanaeth.
- Bu gostyngiad yn nifer gyfredol y gwarchodwyr plant ac mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach er mwyn cadarnhau a yw hyn o ganlyniad i ffactorau economaidd. Bydd yr Archwiliad llawn o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gynhaliwyd yn ystod 2013-14 yn helpu i nodi ai tuedd yw hon a'r ffactorau dylanwadol.

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14


- Sicrhau bod datblygiad Teuluoedd yn Gyntaf ac ehangu Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn gydategol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau a nodwyd fel rhan o'r agenda tlodi plant ehangach, gan ffurfio dull gweithredu cydlynus a chadarn tuag at fynd i'r afael â phenderfynyddion a chanlyniadau tlodi plant.
- Datblygu darpariaeth gofal plant priodol lle y mae rhieni yn ei ddymuno.
- Datblygu Gweithlu Teuluoedd yn Gyntaf a chynorthwyo cynlluniau o fewn elfen anabledd Teuluoedd yn Gyntaf, gan sicrhau eu bod yn ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc

Canran y gostyngiad yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r System Cyfiawnder Ieuenctid



Data gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg

Nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael i blant ym Mro Morgannwg




Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Canlyniad Blaenoriaeth 6: Mae modd i bobl o bob oed fanteisio ar gyfleoedd dysgu cydgysylltiedig, gan feddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn cyrraedd eu potensial yn llawn, gan helpu i waredu rhwystrau i gyflogaeth.

Cyflawniadau Allweddol


- Gwelwyd cyfanswm y disgyblion a wnaeth sicrhau llwyddiant mewn cyrsiau coleg ar y cyd yn cynyddu'n sylweddol o 87% yn 2011, gan sicrhau achrediad llawn neu rannol yn Lefel 2, i bron i 97% yn 2012. Ar y cyfan, mae perfformiad disgyblion 14-16 oed ar gyrsiau Llwybrau Dysgu mewn coleg wedi bodloni'r targedau a gwelwyd canran yr unigolion ôl-16 a oedd yn gadael y coleg ar ôl llwyddo i sicrhau cymhwyster yn codi i 86%.
- Bu cynnydd canrannol yn lefelau presenoldeb disgyblion cynradd (cynnydd o 0.75% i 94.54%) ac uwchradd (cynnydd o 1.5% i 92.81%) o ganlyniad i ddarpariaeth wedi'i thargedu yn fwy.
- Mae cyflwyno Model Ymgysylltu 5 Haen Gyrfa Cymru yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynnal gwaith monitro misol o'r amrywiadau yn statws presennol pobl ifanc. Ym mis Mai 2013, roedd 121 (5.9%) o bobl ifanc 16/17 oed wedi'u cofrestru fel unigolion NEET gyda Gyrfa Cymru ac roedd 1,839 (89.4%) yn ymwneud gydag Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth.
- Mae'r Anogwr Dysgu Ôl-16 yn gwneud gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc y maent mewn perygl o ddatblygu i fod yn NEET neu y gallent fod yn NEET ac mae hyn wedi helpu i ostwng y ffigurau NEET cyffredinol fesul mis a blwyddyn. Bu gostyngiad o 6.8% yn 2008, i lawr i 3.9% yn 2012.
- Yn 2012, roedd data ynghylch cyrchfannau Gyrfa Cymru ar gyfer Blwyddyn 11 yn dangos bod cyfranogiad ôl-16 mewn addysg a hyfforddiant wedi codi o 86.8% i 87.6% (85% ar gyfer y rhanbarth).
- At ei gilydd, mae 204 o gyfranogwyr wedi manteisio ar gymorth trwy gyfrwng tîm prosiect Genesis2 ac mae 54 o gyfranogwyr wedi llwyddo i sicrhau cymhwyster. Bellach, mae 23 o gyfranogwyr wedi symud ymlaen i waith neu ddysgu pellach.
- Mae Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu dull gweithredu holistig tuag at gynorthwyo rhieni trwy leoliadau ysgol ac ar hyn o bryd, mae 18 o ysgolion cynradd yn cynnig y gwasanaeth ac yn darparu oddeutu 228 o gyfleoedd ymgysylltu anffurfiol bob tymor ar gyfer rhieni agored i niwed.
- Mae bodlonrwydd cwsmeriaid gydag addysg oedolion yn parhau i fod yn uchel sef 99%, er y bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cyfleoedd dysgu gydol oes, o 1,1058 yn 2011/12 i 8,754 yn 2012/13.

Canran y disgyblion blwyddyn 11 y maent yn parhau i gael addysg amser llawn



Data gan Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru

Nifer y cofrestriadau ar Gyfleoedd Dysgu Gydol Oes



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Gweithio Rhanbarthol

- Newidiodd gwaith 14-19 y Fro i fod yn rhanbarthol yn 2012 ac erbyn hyn, mae'n rhan o Rwydwaith Canol De Cymru (Caerdydd, Merthyr, RCT a Phen-y-bont ar Ogwr). Mae Cynllun Datblygu Rhwydwaith Rhanbarthol yn bodoli, sy'n cynnwys set o flaenoriaethau a rennir, dangosyddion perfformiad a thargedau. Comisiynwyd gwaith ar y farchnad lafur ar gyfer y rhanbarth. Mae'r Rhwydwaith yn safoni prosesau cynllunio ac yn rhannu arfer ar draws y rhanbarth megis NEETs a chysiau galwedigaethol.


Sialensiau

- Gallai'r Fro weld gostyngiad o ran ei chyllid ar gyfer gwaith 14-19 os bydd Llywodraeth Cymru yn asesu'r angen ac yn ailddosbarthu cyllid yn unol ag amddifadedd.
- Mae'r cynnydd o ran ystod oedran NEETs o 18 i 25 gan Lywodraeth Cymru yn creu sialensiau wrth bennu gwaelodlin a neilltuo adnoddau priodol er mwyn cydlynu amrediad o ddatrysiadau ar draws yr ystod oedran ehangach hwn.
- Nododd arolygiad Estyn o Addysg Oedolion a Chymunedol nifer o feysydd i'w gwella, y bydd angen rhoi sylw iddynt.

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14


- Caiff cyswllt busnesau lleol gyda'r gwaith o fentora, hyrwyddo a chynorthwyo entrepreneuriaeth ei ddatblygu. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn rhan o Grŵp Gazelle sy'n canolbwyntio ar ddwyn arweinwyr entrepreneuriaidd ynghyd er mwyn hyrwyddo cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid cymdeithasol a masnachol, a byddant yn cyflawni rôl pwysig wrth symud hwn yn ei flaen gyda myfyrwyr lleol.
- Nodi adnoddau priodol er mwyn cydlynu gwaith ar unigolion NEET ar draws yr ystodau oedran.
- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygiad yn dilyn arolygiad Estyn o Addysg Oedolion a Chymunedol, a chynnal adolygiad o'r strwythurau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben.
- Meithrin cysylltiadau gyda phrosiectau adfywio presennol ac a fydd yn cael eu sefydlu yn y dyfodol a buddsoddi er mwyn cynnig cyfleoedd i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi cynaliadwy ac o ansawdd da.

Canran y rhai a wnaeth adael Campws y Barri ar ôl sicrhau cymhwyster neu lwyddo i gyflawni eu cynllun dysgu



Data gan Goleg Caerdydd a'r Fro

Nifer y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 y mae'n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)




Data gan Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru

Canlyniad Blaenoriaeth 7: Rhoi sylw i achosion sylfaenol amddifadedd a bod y gwaith o adfywio'r Fro yn parhau, bod cyfleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer unigolion a busnesau a bod ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella.


Cyflawniadau Allweddol

- Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn cynorthwyo busnesau newydd. Datblygwyd gwersyllfaoedd newydd ar hyd yr Arfordir Treftadaeth, gan arwain at 5 safle gwersylla dros dro/parhaol yn ardal wledig y Fro. Gwelir cryn alw ar gronfa grantiau er mwyn helpu teuluoedd amaethyddol i arallgyfeirio ac mae naw busnes fferm wedi cael eu cynorthwyo i ddarparu cyfleusterau yn ymwneud â cheffylau a llety ar gyfer twristiaid ac ymwelwyr.
- Mae tri ar ddeg o gyfleusterau cymunedol wedi cael budd trwy gyfrwng rhaglen Cymunedau Gwledig Creadigol a darparwyd cymorth grant i 6 lle agored a safle chwarae newydd neu wedi'u gwella. Trwy gyfrwng cyllid Ardal Adfywio y Barri, mae safleoedd agored a pharciau amrywiol wedi cael eu gwella a gwnaethpwyd gwaith i wella Canolfan Blant Gibbonsdown. Mae cynllun grant Kick Start CGGF wedi darparu cyllid i 37 o grwpiau lleol gan gynnwys 12 o gyfleusterau cymunedol.
- Mae 406 o aneddiadau wedi manteisio ar y cynnig i gael cymorth yn ystod ail flwyddyn rhaglen adnewyddu Ardal Adnewyddu Castleland yn y Barri. Cytunwyd ar drefniadau trwyddedu TA ychwanegol ar gyfer yr ardal a bydd y rhain yn cael eu gweithredu o 1 Gorffennaf 2013. Yn ogystal, cynigiwyd 50 o leoedd ar sesiynau hyfforddiant i landlordiaid er mwyn helpu i wella'r sector rhent preifat.
- Mae canran yr unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu er 2011/12 ac yn 2012/13, roeddent yn cyfateb â 38.75% o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.
- Sicrhawyd cyllid ar gyfer 'Clwstwr' Cymunedau yn Gyntaf newydd ar gyfer y Barri, gan gynnwys ardal ddaearyddol llawer mwy o faint. Mae'r gwaith wedi parhau i wella lefelau cyflogaeth a mynychwyd Ffair Swyddi ym mis Mawrth 2013 gan dros 1100 o bobl a oedd yn chwilio am waith, ac roedd gan 27 o gyflogwyr lleol a chenedlaethol standin yno.
- Bu prosiect 'Sgiliau Haf' a gynhaliwyd mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Newydd yn cynorthwyo 48 o bobl o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i sicrhau hyfforddiant achrededig am ddim, er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth e.e. trwy sicrhau Tystysgrif Diogelwch Bwyd, a wnaeth alluogi cyfranogwyr i ymgeisio am swyddi ym maes arlwyio.
- Mae canran y bobl sy'n fodlon gyda safonau glendid wedi aros yr un fath, ond mae'n parhau i fod yn is na ffigurau 2010/11 o hyd. Bydd y gwaith yn parhau i wella lefelau bodlonrwydd.

Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn



Canran y bobl y maent yn fodlon gyda safonau glendid




Gweithio Rhanbarthol

- Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gofyn am Fwrdd rhanbarthol wedi'i seilio ar ôl troed Caerdydd a'r Fro. Cynhelir trafodaethau gyda chydweithwyr yng Nghaerdydd a Llywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yr haen ranbarthol hon yn gweithredu.

Sialensiau

- Yn ystod 2013/14, bydd partneriaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cydweithio er mwyn paratoi cais am gyllid cyfalaf trwy gyfrwng Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sef fframwaith adfywio newydd i Gymru a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013. Cynhelir hwn wrth gwblhau gweithrediad blwyddyn olaf y cyllid trwy raglen Ardal Adfywio y Barri.
- Gwelwyd nifer yr ymweliadau addysgol i'r Arfordir Treftadaeth yn gostwng ar gyfer 12/13, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith y bu'n rhaid canslo nifer o ymweliadau oherwydd y tywydd, a chamdybiaeth ymhlith y cyhoedd bod Pentref Canoloesol Cosmeston ar gau. Mae rheolwyr newydd yno erbyn hyn a chynigir ymweliadau addysgol trwy gydol y flwyddyn, a'r gobaith yw y bydd y niferoedd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn cynyddu nawr. Gwelwyd ychydig gynnydd yn nifer yr ymweliadau addysgol i Lynnoedd Cosmeston er 2011/12.

Nifer yr ymweliadau a hwyluswyd i Barciau Gwledig a'r Arfordir Treftadaeth



Data gan Gyngor Bro Morgannwg

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14


- Sefydlu a gweithredu Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf newydd ar gyfer y Barri, er mwyn sicrhau iechyd a lles gwell pobl sy'n byw yn yr ardal Cymunedau yn Gyntaf.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gynigir gan raglen Ardal Adfywio y Barri a rhaglen Cymunedau Gwledig Creadigol.
- Gweithio gyda'r gymuned leol er mwyn gweithredu Ardal Adnewyddu Castleland.
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn cwblhau a gweithredu Fframwaith Canol Trefi Bro Morgannwg er mwyn tywys buddsoddiad a gweithgarwch adfywio yn y dyfodol, a chynyddu'r defnydd a wneir o ganol trefi lleol.
- Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn paratoi cais am gyllid cyfalaf trwy gyfrwng Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Canlyniad Blaenoriaeth 8: Mae'r Fro yn manteisio i'r eithaf ar botensial ei sefyllfa o fewn y rhanbarth, gan weithio gyda'i chymdogaion er budd pobl a busnesau lleol, a chan ddenu ymwelwyr, preswylwyr a buddsoddiad.

Cyflawniadau Allweddol


- Crëwyd cyfleoedd newydd yn y Fro trwy sefydlu Parth Menter Sain Tathan a sicrhau estyniad a fydd yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd a'r tir o'i gwmpas yn y Parth. Yn ogystal, mae swyddi newydd wedi cael eu creu yn y Parth Menter o ganlyniad i fuddsoddiad preifat.
- Trosglwyddwyd Tŷ Dyffryn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym mis Ionawr 2013, gan sicrhau dyfodol i'r safle yn y tymor hir, ynghyd â rhaglen ail-fuddsoddi sy'n werth miliynau o bunnoedd. Disgwylir i nifer yr ymwelwyr i safle Dyffryn fwy na dyblu dros y 10 mlynedd nesaf o ganlyniad i'r trefniant.
- Mae'r gwaith cychwynnol wedi cychwyn ar safle ffordd osgoi Silstwn er mwyn hwyluso mynediad busnes i safleoedd yn Aberddawan a Sain Tathan. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2013/14.
- Er y gwelwyd y ffigurau twristiaeth ar gyfer y Fro yn gostwng ychydig o 3,274,000 yn 2011/12 i 3,193,500 yn 2012/13, gwelwyd y gwariant gan dwristiaid yn y Fro yn codi o £176.26 miliwn i £176.72 miliwn.
- Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandŵ ym mis Awst 2012 ac roedd 138,000 wedi ymweld â'r ŵyl dros yr wythnos. Bu'r partneriaid yn cydweithio er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiant ac mae hyn yn dangos bod y Fro yn lle da i gynnal digwyddiadau mawr.
- Lluniwyd dogfen o'r enw "Setting the Scene", a gymeradwywyd fel sail ar gyfer gweithgarwch ymgynghori ac er mwyn cychwyn y brif broses gynllunio ar gyfer Ynys y Barri.
- Mae Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cynnal sawl prosiect, y maent wedi arwain at gadw a chreu swyddi yn ystod 2012/13. At ei gilydd, cefnogwyd 57 prosiect, yr oeddent yn werth £1,075,000 gyda'i gilydd

Cyfanswm yr ymwelwyr i Fro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (a fesurwyd gan arolwg STEAM)



Data gan Arolwg STEAM

Canran y busnesau a wnaeth gymryd rhan ym mhrosiect Mae Twristiaeth yn Bwysig neu Ymweld â'r Fro+ y maent yn cytuno gyda'r canlynol o ganlyniad i'r cymorth a gafwyd:



- Mae'r cynnyrch yr ydym yn ei gynhyrchu/ y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn well
- Mae'r busnes yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus
- Mae'r busnes yn fwy tebygol o dyfu (cynyddu swm y trosiant neu nifer y cyflogeion)
- Mae'r busnes yn fwy tebygol o dyfu yn gyflymach (cynyddu swm y trosiant neu nifer y cyflogeion)

Tynnwyd y data hwn o adroddiad gan Wavehill Ltd. a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Wledig Cyngor Bro Morgannwg yn 2012 i werthuso gweithgareddau Echel 3 a 4 a ariannwyd fel rhan o Gynllun Busnes 1 Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013.

Gweithio Rhanbarthol

- Caiff gwaith ei wneud gyda phartneriaid mewn ardaloedd cyfagos er mwyn hyrwyddo twristiaeth, cynnal a datblygu seilwaith trafnidiaeth priodol ar gyfer y rhanbarth ac er mwyn cynorthwyo datblygiad economaidd.
- Cymryd rhan yng Nghynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Sewta), sy'n cynnwys deg Awdurdod Lleol yn Ne Ddwyrain Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol eraill megis gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus, grwpiau rhanddeiliaid a Sustrans ar faterion sy'n ymwneud â pholisi trafnidiaeth a gweithredu.


Sialensiau

- Bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Drafft Adneuo newydd yn darparu fframwaith er mwyn siapio a hyrwyddo twf buddiol, priodol a chynaliadwy yn y Fro. Yn flaenorol, roedd CDLI wedi cyrraedd y cam adneuo ac roedd yn cynnwys nifer o gyfleoedd cyflogaeth newydd, gan gynnwys 'Porth Cymru', safle cyflogaeth newydd ym Maes Awyr Caerdydd, a chyswllt rheilffordd newydd i'r maes awyr ei hun. Yr her yw bodloni amrediad o anghenion ar draws y Fro gan gynnwys cyflogaeth, tai a materion amgylcheddol.

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14


- Mae targedau allweddol ar gyfer y strategaeth dwristiaeth (2011-2015) wedi cael eu datblygu er mwyn creu cynllun gweithredu cyrchfannau ar gyfer 2013-15 a bydd croestoriad o randdeiliaid a phartïon y mae ganddynt ddiddordeb yn cymryd rhan yn y broses o ddrafftio'r ddogfen yn ystod 2013.
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan Barth Menter Sain Tathan-Maes Awy Caerdydd.
- Cychwyn ar brif broses gynllunio Ynys y Barri er mwyn ei chwblhau yn ystod 2014/15, a defnyddio "Setting the Scene" fel sail y gweithgarwch ymgynghori.
- Parhau i weithio er mwyn datblygu Ardoll Seilwaith Cymunedol a fydd yn darparu ar gyfer anghenion seilwaith y Fro, gan gynnwys y seilwaith trafnidiaeth angenrheidiol.

Nifer y swyddi i gyflogeion ym Mro Morgannwg



Cymrwyd y data o StatsCymru ac mae'r ffigurau yn cyfateb â'r rhai diweddaraf sydd ar gael ar 31/03/2013

% y busnesau newydd sy'n goroesi tair blynedd o fasnachu yn y Fro




Cymrwyd y data o StatsCymru ac mae'r ffigurau yn cyfateb â'r rhai diweddaraf sydd ar gael ar 31/03/2013. Mae'r graff yn dangos y dyddiad y sefydlwyd y busnesau. Felly, mae ffigurau 2007/08 yn dangos busnesau a sefydlwyd erbyn mis Mawrth 2008 ac yr oeddent yn gweithredu o hyd ym mis Mawrth 2011.

Canlyniad Blaenoriaeth 9 – Mae preswylwyr ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ac mae'r Fro yn cael ei chydabod fel ardal lle y mae lefel y troseddu yn isel.

Cyflawniadau Allweddol


- Mae Partneriaeth Bro Ddiogelach wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo negeseuon diogelwch cymunedol gan ddefnyddio'r cyfleusterau Negeseuon Cymunedol sy'n cynnwys defnyddio Twitter, negeseuon e-bost a dosbarthu taflenni. Y targed a bennwyd eleni oedd 40 o negeseuon a dosbarthwyd 116 o negeseuon.
- Gwelwyd yr holl droseddau ar draws Bro Morgannwg yn gostwng 0.9%, gyda gostyngiad o 55 digwyddiad yn ystod 2012-13, a oedd yn cynnwys gostyngiad o 7.3% mewn difrod troseddol a gostyngiad o 17.7% mewn troseddau yn ymwneud â chyffuriau.
- Gyda gwaith parhaus gan asiantaethau gwirfoddol, megis Atal y Fro, roedd nifer y digwyddiadau cam-drin domestig a ailadroddwyd yn y Fro wedi gostwng 63% yn 2012/13, ar sail data tan Ch3. Mae ad-ddioddefwyr yn cyfateb â 3.6% o'r holl achosion cam-drin domestig a adroddwyd i'r heddlu. Newidiwyd y dull o gofnodi data yn ystod y flwyddyn, felly nid yw gwybodaeth Ch4 wedi cael ei chynnwys.
- Gweithredwyd ymgyrch Diogelwch Nodwyddau ar draws y Fro. Roedd yr ymgyrch hon yn targedu pobl ifanc, y gymuned gyfan a defnyddwyr gwasanaethau. Bu partneriaid o Fro Ddiogelach, y Gwasanaeth Ieuencid ac Inroads oll yn cydweithio ar yr ymgyrch.
- Mae'r Eiriolwr Dioddefwyr o fewn yr uned YG yn wasanaeth newydd. Bellach, caiff yr uned ei harwain gan ddioddefwyr a rhoddir y pwys mwyaf ar anghenion y dioddefwr. Er mis Mehefin 2012, cysylltwyd â 776 o ddioddefwyr Troseddau Casineb ac YG ac mae 10 gwirfoddolwr wedi cael eu recriwtio er mwyn cynorthwyo'r uned, sy'n cynnig cymorth a werthfawrogrir.
- Yn ystod Chwarter 3, bu Tîm Cymorth Camddefnyddio Sylweddau BCA yn cynnal ymweliadau tendro ar gyfer Gwasanaeth Alcohol a Chyffuriau Plant a Phobl Ifanc haen 2 newydd, sef y cyntaf o'i fath yn y Fro, a hysbyswyd yr ymgeiswyr llwyddiannus, Barnardos ac Inroads, ac fe wnaethant gychwyn ar raglen ddechrau tri mis yn ystod Chwarter 4.
- Cynhaliodd Bro Ddiogelach ei Diwrnod Agored cyntaf ar 7 Hydref 2012. Roedd y Diwrnod Agored yn ddigwyddiad lle y bu 14 asiantaeth a 25 gwasanaeth sy'n gweithio mewn partneriaeth yn dangos sut y maent yn gweithio er mwyn darparu lle mwy diogel i weithio, i fyw ac i ymweld ag ef ar gyfer y gymuned. Gwelwyd oddeutu 3,000 o breswylwyr yn mynychu'r digwyddiad a bu'r adborth yn gadarnhaol iawn.

Cyfanswm y ffigurau troseddu ar gyfer Bro Morgannwg



Ffynhonnell: Heddlu De Cymru

Canran y bobl sy'n cael rhybudd cychwynnol ac y maent yn parhau i ddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol



Data gan Bartneriaeth Bro Ddiogelach


Gweithio Rhanbarthol

- Mae Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro wedi cwblhau cyfnod o ymgynghori a bydd yn cael ei chyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 13/14. Mae alcohol yn thema drwy'r strategaeth gyfan, sy'n cynnwys 4 prif faes; Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau, Triniaeth a Chymorth ar gyfer Oedolion, Plant a Phobl Ifanc a Chyfiawnder Troseddol.

Sialensiau

- Er y gwelwyd gostyngiad o 2.4% yn y lefel droseddu yn y Barri, gwelwyd cynnydd o 1.5% yn ardal wledig y Fro ac ym Mhenarth. Mae modd priodoli hyn i gynnydd o 21% yn nifer y byrgleriaethau yn ardal wledig y Fro a Phenarth (cyfanswm o 134 achos o'i gymharu gyda 110 yn ystod 2011-12).
- Gwelir cynnydd o ran nifer yr achosion o anghydfodau rhwng cymdogion yn y Fro. Yn aml, mae'r anghydfodau hyn yn gymhleth ac yn anodd i'w datrys ac mae amser sylweddol yn cael ei neilltuo gan y staff er mwyn ceisio'u datrys. Mae nifer y cyfarfodydd gan grwpiau gorchwyl a gorffen wedi cynyddu ac ystyriwyd y cam o fanteisio ar wasanaeth cyfryngu. Cofnodwyd adroddiadau ac maent wedi cael eu monitro mewn ffordd barhaus, a bydd ffigurau yn cael eu casglu ar gyfer 13/14.
- Gall data'r heddlu sy'n cael ei ailddosbarthu a'i gofnodi dan wahanol deitlau arwain at orfod ailenwi neu derfynu targedau a bennwyd gan y bartneriaeth, ac mae hyn yn gallu gwneud y broses o fonitro tueddiadau dros gyfnod o amser yn anoddach.

Nifer y Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gynhaliwyd gan Bro Ddiogelach



Sylwer: Gwelwyd y ffigwr hwn yn cyrraedd ei anterth yn ystod 2011/12 gan y bu TREV yn Ynys y Barri yn ystod misoedd yr haf, ac fe'i ddefnyddiwyd er mwyn cynnal digwyddiadau amrywiol er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ystod 2012/13, mae'r Heddlu wedi defnyddio TREV fel swyddfa; felly, mae'r perfformiad dan y mesur hwn wedi gostwng.


Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14

- Yn ystod 2011/2012, gwnaeth prosiect a oedd yn ymwneud â lleoli TREV yn Ynys y Barri arwain at ffigwr arbennig o uchel ar gyfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Ni chafodd y prosiect hwn ei ailadrodd yn ystod 12/13 o ganlyniad i ddiffyg cyllid, ond mae cais wedi bod yn llwyddiannus o fewn Heddlu De Cymru i gynnal y prosiect hwn dros fisoedd yr haf yn 13/14, ac mae'n gysylltiedig gyda chynnydd yn nifer y digwyddiadau yn yr ardal.
- Cynnal lefelau isel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gostwng nifer yr anghydfodau rhwng cymdogion trwy wneud gwaith effeithiol mewn partneriaeth ac ymgysylltu cynnar. Yn ogystal, bydd partneriaid yn ymateb i ddeddfwriaeth YG newydd, gan ystyried sut y rheolir datblygiadau newydd fel ysgogiadau cymunedol.
- Lansiwyd Strategaeth Alcohol y Fro yn 2012 a bydd y gwaith yn parhau i fonitro'r cynnydd ynghylch gostwng lefelau camddefnyddio alcohol a sylweddau.
- Caiff lefelau troseddu yn ardal wledig y Fro ac ym Mhenarth eu monitro mewn ffordd ofalus trwy gyfrwng gwaith y Grŵp Rheolaeth Troseddwy'r Integredig, a fydd yn cydweithio i atal gweithgarwch troseddol.
- Pennu data cadarn ynghylch cam-drin domestig sy'n gysylltiedig gyda 10,000 o Fywydau Diogelach a safonau gwasanaeth gofynnol yn cael eu hyrwyddo ar draws Cymru.

Canlyniad Blaenoriaeth 10: Caiff anghydraddoldebau iechyd eu lleihau ac mae modd i breswylwyr fanteisio ar y gwasanaethau, y wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol er mwyn gwella'u lles ac ansawdd eu bywyd.

Cyflawniadau Allweddol

- Mae sefydlu Tîm Adnoddau Cymunedol Bro Morgannwg wedi cryfhau trefniadau gweithio integredig rhwng cydweithwyr cymdeithasol, y trydydd sector a gofal iechyd ar gyfer preswylwyr y Fro yn eu cymuned.
- Sefydlwyd rheolwyr ar y cyd ar gyfer anableddau dysgu ac iechyd meddwl ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, gan arwain at ddull gweithredu mwy integredig tuag at ddarparu gwasanaeth, lleihau biwrocratiaeth a gwella parhad gofal.
- Paratowyd Cyfeiriadur Gwasanaethau Caerdydd a'r Fro gan Ganolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro a Chyngor 3ydd Sector Caerdydd er mwyn hyrwyddo cymorth, cyngor a gwybodaeth i ofalwyr.
- Llwyddwyd i gynnal lefel uchel o ran llwyddiant yn erbyn targed y Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau, sef heb fod dros 20 diwrnod rhwng cyfeirio a chael triniaeth. Gallai'r gostyngiad bach yn y ffigwr hwn fod o ganlyniad i'r Pwynt Ymgysylltu Sengl (EDAS) newydd, y mae'n rhaid iddo gael ei ymgorffori o fewn strwythurau sy'n bodoli eisoes. Yn 2013/14, y targed fydd cynnal a gwella hyn, wrth i nifer o wasanaethau newydd gael eu comisiynu.
- Lanswyd y lle chwarae di-fwg cyntaf ym Mharc lolo yn y Barri. Bu plant yn ymwneud gyda'r gwaith o hyrwyddo'r fenter, gan gymryd rhan mewn ymgyrch creu posteri er mwyn annog pobl i beidio ysmegu yn y lle chwarae. Bu'r adborth gan breswylwyr lleol yn gadarnhaol.
- Mae'r Fro yn Fwrdeistref y Galon ac yn 2012/13, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau lleol, gan gynnwys Taith Loncian y Nadolig gyda Sefydliad Prydeinig y Galon. Mae'r digwyddiadau hyn, ynghyd â'r holl ddeunyddiau hyrwyddo yn holl swyddfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y cyngor yn helpu i godi ymwybyddiaeth o glefyd y galon a sut i'w atal.
- Trwy gyfrwng menter Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, rhoddwyd hyfforddiant dwys i staff y Cyngor a staff y trydydd sector er mwyn eu galluogi i ledaenu ymwybyddiaeth o faterion iechyd allweddol trwy gyfrwng eu cyswllt dyddiol gydag aelodau'r cyhoedd.



Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru



Data ar gyfer Bro Morgannwg yn unig

Tynnwyd y data o Adroddiad Blynyddol BCA Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro

Gweithio Rhanbarthol

- Mae cydweithwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Iechyd, Cyngor Caerdydd a phartneriaid trydydd sector yn cydweithio'n agos er mwyn ystyried sut i wella ein gallu i gydweithio ar draws ffiniau traddodiadol. Comisiynwyd Cronfa Kings ac Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal Adolygiad Gwasanaethau Integredig ac i gynnig cyngor arfer gorau ynghylch y ffordd orau ymlaen.


Sialensiau

- Fel nifer o ardaloedd ar draws Cymru, mae poblogaeth y Fro yn parhau i ddangos tuedd sy'n peri pryder o ran cynnydd mewn lefelau gordewdra a gostyngiad mewn arferion bwyta'n iach. Mireiniwyd cynlluniau gweithredu ynghylch Bwyd a Gweithgarwch Corfforol ar gyfer 2013-14.
- Er bod y cyfraddau imiwneiddio rhag y fflw wedi codi, maent yn parhau i fod yn is na'r lefelau targed cenedlaethol, yn enwedig ymhlith y grwpiau 'mewn perygl'. Mae cynlluniau er mwyn hyrwyddo'r brechiad ymhlith grwpiau allweddol yn cael eu paratoi ar gyfer tymor nesaf y fflw a dylid parhau i ddatblygu cynlluniau arloesol megis menter 'Ffrindiau Fflw' y trydydd sector.
- Mae amcanestyniadau cyfredol ynghylch y ffaith bod y ddemograffeg oedran yn newid o fewn ein poblogaeth, yn parhau i beri pryder. Bydd partneriaid yn parhau i geisio cyfateb adnoddau er mwyn bodloni'r anghenion hynny.

Camau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2013/14


- Gweithredu camau gweithredu yn deillio o'r Adolygiad Gwasanaethau Integredig.
- Cynorthwyo datblygiad gwasanaethau sy'n cynorthwyo'r sawl y mae ganddynt ddementia fel rhan o ffrwd waith ehangach Pobl Hŷn.
- Parhau i gyflwyno cynlluniau ataliol ar lefel sylfaenol ac eilaidd, gan sicrhau ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
- Parhau i weithredu Cymunedau Iach y Fro.

Nifer y brechiadau rhag y Fflw a roddwyd i gleifion 65+ oed yn y Fro



Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gordewdra, Bwyd a Ffitrwydd Corfforol ymhlith Oedolion yn y Fro



■ Y maent dros bwysau neu'n ordew
 ■ Y maent yn bwyta o leiaf bum darn o ffrwythau/llysiau bob dydd
 ■ Y maent yn cyflawni canllawiau gweithgarwch corfforol

Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Datblygu Data

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio trefniadau rheoli perfformiad cadarn er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau cywir wedi cael eu nodi ar gyfer y Fro. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y ffaith bod argaeledd data cyson a dibynadwy, ac sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ac sy'n adlewyrchu'r perfformiad yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni, yn diffygiol mewn rhai meysydd. Comisiynwyd Uned Ddata Llywodraeth Leol i ystyried sut y mae modd i ni ddatblygu data mewn nifer o feysydd lle y gwelir diffyg dangosyddion perfformiad. Ymgynghorwyd gyda phob un o'r partneriaethau allweddol ynghylch pa feysydd y dylid canolbwyntio'r gwaith arnynt yn eu barn nhw, er mwyn datblygu mesurau perfformiad yn ystod 2013/14. Nodwyd y meysydd canlynol:

- Gwella data ynghylch ymgysylltu yn unol â dull gweithredu mwy cydgysylltiedig tuag at ymgysylltu gyda phartneriaid.
- Data ynghylch sut y mae partneriaid yn ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod systemau mewn grym er mwyn adrodd am y dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithredu systemau ar gyfer dangosyddion perfformiad Cymunedau yn Gyntaf.
- Mesurau tlodi plant.
- Cytuno ar fesurau er mwyn monitro camau gweithredu sy'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag iechyd y boblogaeth cyn i ystadegau wedi'u cydlynu ar lefel genedlaethol gael eu rhyddhau ynghylch iechyd y boblogaeth
- Tystiolaeth waelodlin er mwyn cyfrannu at gais 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid',
- Tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cyrchfannau.

Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn i ddiweddarau'r Asesiad Anghenion Unedig er mwyn cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Cyflawni 2014-18, a fydd yn sail i'r broses o weithredu cam nesaf Strategaeth Gymunedol 2011-21. Yn ogystal, bydd hyn yn cynnig y cyfle i nodi meysydd er mwyn datblygu data ac er mwyn ystyried mesurau perfformiad newydd, er mwyn gallu mesur y perfformiad mewn ffordd fwy manwl ac a yw'r canlyniadau yn cael eu cyflawni. Gan gofio hyn, ffocws y gwaith yn ystod 2013/14 fydd gosod y sylfeini ar gyfer fframwaith rheoli perfformiad mwy cadarn ar gyfer 2014/18, gyda mwy o hyder yn y data sydd ar gael a mwy o ddealltwriaeth o'r ffordd y gall gynorthwyo ein gwaith.

Byrfoddau

BCA	- Bwrdd Cynllunio Ardal
YG	- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
GDB	- Grŵp Deallusrwydd Busnes
AAB	- Ardal Adfywio y Barri
C1V	- Contact 1 Vale
FACT	- Families Achieving Change Together
GGD	- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
TA	- Tŷ Amlfeddiannaeth
RhTI	- Rheolaeth Troseddwyr Integredig
CDLI	- Cynllun Datblygu Lleol
UDdLIL	- Uned Ddata Llywodraeth Leol
BGLI	- Bwrdd Gwasanaethau Lleol
NAFIS	- Cymdeithas Genedlaethol Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
NEET	- Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
NRW	- Cyfoeth Naturiol Cymru
GASC	- Grŵp Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus
RCT	- Rhondda Cynon Taf
CIS	- Cynllun Integredig Sengl
TREV	- Y Cerbyd Ymgysylltu a Thawelu Meddyliau
BIP	- Bwrdd Iechyd Prifysgol
FfS50+F	- Fforwm Strategaeth 50+ y Fro
CGGF	- Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
BGF	- Biwro Gwirfoddolwyr y Fro

CANLYNIADAU BLAENORIAETH Y STRATEGAETH GYMUNEDOL

1. Mae pobl o bob oedran yn cymryd rhan weithredol ym mywyd y Fro ac maent yn meddu ar y gallu a'r hyder i nodi eu hanghenion eu hunain fel unigolion ac o fewn cymunedau.

2. Bodlonir anghenion amrywiol pobl leol trwy ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth hygyrch ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

3. Mae preswylwyr a sefydliadau y Fro yn parchu'r amgylchedd lleol ac yn cydweithio er mwyn ymateb i sialens y newid yn yr hinsawdd.

4. Caiff pobl hŷn eu gwerthfawrogi a'u grymuso i barhau i fod yn annibynnol, yn iach ac yn weithredol. Maent yn manteisio ar gyfle cyfartal ac yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel er mwyn bodloni eu hanghenion amrywiol.

5. Mae Plant a Phobl ifanc yn y Fro yn wybodus ac yn cael eu cynorthwyo i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau o ansawdd sy'n eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn eu cymunedau lleol a thu hwnt.

6. Mae modd i bobl o bob oedran fanteisio ar gyfleoedd dysgu wedi'u cydlynw ac maent yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn cyflawni eu potensial llawn, gan helpu i gael gwared ar rwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar gyflogaeth

7. Rhoddir sylw i achosion sylfaenol amddifadedd ac mae'r gwaith i adfywio'r Fro yn parhau. Caiff cyfleoedd eu datblygu ar gyfer unigolion a busnesau a chaiff ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol ei diogelu a'i gwella.

8. Mae'r Fro yn manteisio i'r eithaf ar botensial ei lleoliad o fewn y rhanbarth, gan weithio gyda'i chymdogion er budd pobl a busnesau lleol, gan ddenu ymwelwyr, preswylwyr a buddsoddiad.

9. Mae preswylwyr ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ac mae'r Fro yn cael ei chydabod fel ardal lle y mae lefel y troseddu yn isel.

10. Caiff anghydraddoldebau iechyd eu lleihau ac mae modd i breswylwyr fanteisio ar y gwasanaethau, y wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol er mwyn gwella'u lles ac ansawdd eu bywyd.